CATRIN GLYNDWR

Seiliwyd y sioe un ferch hon ar hanes Catrin, merch owain Glyndwr, a gafodd ei charcharu yn Nhwr Llundain yn ystod gwrthryfel Glyndwr yn erbyn brenin Lloegr.

Llwyddodd Heledd Bianchi i gyfleu hanes Catrin trwy gyfres o ganeuon, dawnsfeydd a chameos dramatig,. Fel pawb arall, ychydig a wyddwn am hanes teulu Owain Glyndwr ac roedd gwylio'r perfformiad hwn yn fodd i gael mewnwelediad empathetig iawn. Portreadwyd ei bywyd fel merch i Owain, ei safle fel merch yn y gymdeithas a oedd ohoni bryd hynny, ei charchariad, a marwolaeth y teulu yn effeithiol iawn.

Roedd ôl ymchwilio manwl ar y sgript ac roedd y symud slic o un cameo i'r llall yn gelfydd iawn. Roedd y caneuon yn ychwanegu at y dwyster a'r dawnsio yn cyfleu teimladau Catrin mewn modd cyffrous a theimladwy.

Trueni na fuasai mwy wedi cefnogi'r perfformiad hwn, yn enwedig yn Harlech lle mae cysylltiad mor gryf a dathliad arbennig eleni. Os cewch gyfle i'w weld ewch da chi i chwithau gael dysgu mwy am deulu un o'n harwyr mwyaf ac i fwynhau perfformiad yr actores ddawnus hon.

Janet Mostert

(Athrawes, Ysgol Ardudwy, Harlech)